

 **Dolydd
Byw**



 Yr
Ymddiriedolaeth
Parfeydd
Ardduri Llywodraethol

ein dolydd byw

**MANIFFESTO AR GYFER
DOLYDD BYW CYMRU**



BBC Cymru

MAE GEN I LAWER O ATGOFION MELYS o'm plentyndod yn Llanwddyn, gogledd sir Drefaldwyn. Dringo coed, rasio beiciau drwy'r coetiroedd, nofio yn afon Efyrynwy, cerdded ar y rhostiroedd, gwyllo llygod dŵr wrth bysgota gyda'r nos; mae'r rhestr yn faith. Ond, mae un cof yn dal yn fwy byw yn fy meddwl na'r gweddill.

Rwy'n cerdded trwy ddôl gyda fy mrawd Rhys, ar ein ffordd i weld ffrind ar fferm leol. Wrth i ni ymlwybro drwy'r glaswellt uchel, mae dwsinau o geiliogod rhedyn yn neidio i osgoi ein traed trwsogl. Dyma gylfinir yn codi ar ben pella'r cae, ble mae wedi nythu bob blwyddyn. Yn y mannau gwlyb, mae pennau pinc carpiog y gors yn chwifio yn yr awel a llygaid llo mawr yn garped o'n cwmpas. Wrth i ni ddynesu at glwyd bren, rwy'n tynnu sylw at glwstwr tegeirian y wenynen, wedi'u cuddio'n dda er eu blodau lliwgar.

O'n cwmpas mae pili-palaod, gwyfynod, gwenyn a chwilod yn hedfan o flodyn i flodyn, a dwsinau o wenoliaid a gwenoliaid y bondo yn plymio i fwydo ar y pryfed diniwed.

Nid oedd y ddôl hon yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig nac yn warchodfa natur, dim ond cae cyffredin. Ac roedd llawer mwy ar hyd y cwm ac, mae'n debyg, ar draws y sir.

Dychwelais i'r union gae yn ystod haf y llynedd. Roedd y tegeirianau, pili-palaod, gwenoliaid, gylfinir, carpiog y gors a'r llygaid llo mawr wedi diflannu. Rhygwellt o un ochr o'r cae i'r llall, gyda dim ond dant y llew a llygaid y dydd yn tarfu ar y gwyrddni undonog. Roeddwn bron â chrio.

Yn anffodus, mae'r olygfa hon yn gyffredin iawn erbyn hyn. Mae dros 98% o'n dolydd blodau gwyllt wedi diflannu dros y 60 blynedd diwethaf a phob math o fywyd gwyllt wedi cilio gyda nhw. O'r rhai prin sy'n weddill, diogelwyd rhai gan y gyfraith, eraill am eu bod yn cael eu rheoli gan dirfeddianwyr uchel ael. Ond, bydd nifer yn diflannu am byth hyd yn oed wrth i mi ysgrifennu hwn.

Mae dolydd blodau gwyllt – Dolydd Byw – yn icon o ardaloedd gwledig Prydain, rhan integrol o blentyndod llawer ohonom. Mae'n gas gen i feddwl na fydd cyfle gan fy mhlant ac wyrion i gerdded trwy gaeau'n llawn ehedydd yn canu a gwenyn yn suo. Mae'n rhaid i ni gymryd camau rwan i achub yr holl gynefinoedd bywyd gwyllt gwyh yma.

Iolo Williams

Cyflwynydd teledu a noddwr, Menter Dolydd Byw Cymru

Dolydd Byw yn fenter o dan arweiniad Flora locale, yr elusen adfer planhigion gwyllt, yn cydweithio mewn partneriaeth â ffermwyr a chyrff cadwraeth er mwyn hyrwyddo adfer, rheoli a gwerthfawrogi dolydd blodau gwyllt.

Gwybodaeth bellach am ein Dolydd Byw yn www.dolyddbyw.org.uk

Cyhoeddwyd y manifestio gan Flora locale a The Grasslands Trust, Ebrill 2008. Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl a heb ganiatâd ymlaen llaw. Cedwir hawlfraint y lluniau gan y ffotograffwyr unigol. Llionau'r clawr: Rob Evans, Sue Everett, David Harries, Plantlife, James Robertson.

Crynodeb

Nod y Maniffesto hwn, gan Flora locale a'r Grasslands Trust, yw datblygu agenda ar gyfer pawb sy'n cefnogi'r egwyddor o gynnal ac adfer Dolydd Byw. Yn ogystal mae llawer o fannau eraill, fel y rhai a nodwyd gan ein Noddwr yn y rhagair, sydd wir angen ein cymorth. Gallant gynnig cymaint, o bleserau esthetig i fuddion amgylcheddol ac economaidd ehangach. Gadewch i bawb ohonom gydweithio i adfer a chynnal Dolydd Byw er lles tirweddau byw a gwaith Cymru.

- ✿ Nid yw llawer o ffermwyr a thirfeddianwyr yn llwyr ddeall neu werthfawrogi dolydd byw a'u gofynion rheoli. Mae'r dolydd hyn, a'r bobl sy'n eu cynnal yn asedau gwerthfawr yng nghyd-destun ffermio cynladwy a bioamrywiaeth y wlad.
- ✿ Gallai'r glaswelltiroedd hyn chwarae rôl amgenach wrth ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol ac fel adnoddau twristiaeth gwledig. Byddai ymgyrchoedd i farchnata cig eidion ac oen Cymru wedi'u magu ar laswelltiroedd blodau gwyllt yn ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymreig ac yn cynyddu gwerth dolydd byw i'r diwydiant ffermio.
- ✿ Diogelwyd llawer o'r enghreifftiau gorau yn gyfreithiol gan rwydwaith statudol o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SSSI), ond mae hyd at un allan o bump ohonynt mewn cyflwr gwael. Mae angen rhagor o adnoddau ar frys er mwyn rheoli'r dolydd hyn yn addas a'u diogelu'n gyfreithiol, yn ogystal â rheoli glaswelltiroedd eraill o ansawdd tebyg.
- ✿ Gellid rhoi statws Safle Bywyd Gwyllt Lleol i ddolydd byw heb eu dynodi fel SSSI. Gallai system Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol gymryd lle'r trefniadau ad hoc cyfredol a chwarae rôl bwysig mewn diogelu dolydd byw a chynefinoedd bywyd gwyllt eraill.
- ✿ Mae angen darparu mwy o adnoddau i helpu ffermwyr a thirfeddianwyr reoli dolydd byw yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r adolygiad o gynlluniau amaeth-amgylchedd yn cynnig cyfle pwysig i wella ac ad-drefnu'r cymorth ar gael i gynnal ac adfer dolydd byw.
- ✿ Rhaid gwneud mwy i ddiogelu dolydd byw rhag effeithiau datblygiadau adeiladu a ffermio dwys.
- ✿ Mae projectau lleol sy'n darparu cyngor a chymorth i reoli ac adfer dolydd byw yn gweithio'n dda ac mae angen eu datblygu ar draws y wlad. Bydd angen mwy o gymorth hir dymor o gronfeydd Ewropeaidd ac eraill ar frys er mwyn datblygu a chynnal mentrau lleol.

Byddai buddsoddi mewn diogelu ac adfer dolydd byw yn llesol i'r economi, twristiaeth a'r amgylchedd. Ar ben hynny, wrth gyflwyno'r mesurau uchod a ddatblygwyd yn y ddogfen hon a phapurau cefndir yn llawn, dylai fod yn bosibl i wireddu amcanion *Strategaeth Amgylcheddol Cymru* ar gyfer dolydd byw, a sefydlu cynefinoedd bywyd gwyllt yng Nghymru yn gyffredinol.

Stuart Smith, Cyngor Cefn Gwlad Cymru



“ Mae tirwedd Cymru yn cynrychioli adnoddau gwerthfawr a bregus sy'n adlewyrchu ei bioamrywiaeth a daearyddiaeth, datblygiad hanesyddol a hunaniaeth ddiwylliannol. ”
(Cynllun Datblygu Cefn Gwlad Cymru 2007–2013)

Flora locale



Glaswelltiroedd a ffermydd da byw sy'n nodweddu tirwedd isel Cymru. O fewn y dirwedd honno mae caeau llawn blodau a phlanhigion gwyllt eraill sy'n cynrychioli gweddillion beth oedd gynt yn rhwydwaith o ddolydd byw, a gynhaliwyd gan anifeiliaid yn pori neu wrth greu gwair, neu gyfuniad o'r ddau. Mae dolydd byw yn elfen hanfodol o dreftadaeth natur, tirwedd a ffermio traddodiadol Cymru, boed yn gaeau corsiog, meysydd gwair llawn blodau, caeau calchfaen, ffriddoedd ucheldiroedd neu laswelltiroedd ar ben creigiau.

Maniffesto ar gyfer Dolydd Byw Cymru

GWERTHFAWROGI DOLYDD BYW

Cydnabod gwerth cynhenid ac economaidd glaswelltiroedd blodau gwyllt, yr angen i'w diogelu a chefnogi perchnogion a'r bobl sy'n edrych ar eu hôl. Yn benodol, cydnabod rôl y glaswelltiroedd hyn mewn ffermio cynladwy, y diwydiant da byw a'r bwyd maethlon gallant gynhyrchu.

Y cyhoedd, ffermwyr, tîrfeddianwyr, datblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol, ymgynghorwyr cynllunio, asiantau tir, cyrff cyhoeddus, cynghorwyr lleol, Aelodau'r Cynulliad, Rhwydwaith Maeth Cymru

SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG (SSSI)

Cryfhau a gwella ffocws rôl ac adnoddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru (cyllid a staff gyda'r cymwysterau addas) er mwyn diogelu ac adfer safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

Llywodraeth y Cynulliad

Dylid ymweld â pherchnogion/deiliaid Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rheolaidd, gan roi cyngor a chymorth drwy gyfrwng cytundebau rheoli cynefinoedd, cytundebau amaeth-amgylchedd a threfniadau eraill, er mwyn helpu i ddiogelu'r safleoedd hyn.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cwblhau dynodi'r holl ddarpar ddolydd SSSI a'u rheoli'n addas.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ffermwyr, tîrfeddianwyr

CEFNOGI PERCHNOGION A RHEOLWYR DOLYDD BYW

Cynlluniau amaeth-amgylchedd

Cyflwyno cyfres o gynlluniau amaeth-amgylchedd diwygiedig er mwyn helpu ffermwyr a thîrfeddianwyr i gynnal, adfer ac ailsefydlu dolydd byw dros yr hir dymor. Gellid gwneud hynny drwy gyfrwng yr isod:

Llywodraeth y Cynulliad

- Ailgyflwyno cynllun yn seiliedig ar gynnal cynefinoedd ar gyfer dolydd byw a chynefinoedd eraill o dan fygythiad; ar sail rhannau o ffermydd, yn agored i berchnogion glaswelltiroedd blodau gwyllt a allai fod yn anghymwys i ymgeisio ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd;
- Gwella ffocws y cynllun cychwynnol, er mwyn cynnal bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd;
- Cynyddu taliadau ar gyfer cynnal ac adfer cynefinoedd glaswellt i lefel yn cyfateb i renti pori masnachol;
- Gwella dulliau monitro glaswelltiroedd llawn rhywogaethau a glaswelltiroedd lled well o dan gytundebau amaeth-amgylchedd.

Cynlluniau lleol a chymorth cyffredinol ar gyfer perchnogion a rheolwyr

Gwella'r cyngor a chymorth ar gyfer perchnogion a rheolwyr er mwyn eu helpu i reoli dolydd byw, yn arbennig tyddynnod hyd at 3 hectar nad ydynt yn gymwys ar gyfer cytundebau amaeth-amgylchedd.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Flora locale

Cynyddu'r cyllid ar gyfer projectau arbennig, gan eu cefnogi am gyfnodau hirach, gydag amodau hyblyg yn ystyried gofynion asiantaethau gwahanol, a allai fod yn gyrrff gwirfoddol.

Llywodraeth y Cynulliad, cyllidwyr projectau arbennig

Symbylu projectau arbennig yn gysylltiedig â dolydd byw, sef eu harchwilio, cynnal a rheoli drwy Raglen Ddatblygu Cefn Gwlad Cymru. Ble'n bosibl, eu cysylltu â chyfleoedd hyfforddi ar gyfer rheolwyr tir a datblygu rhwydweithiau bwyd lleol i farchnata cig oen ac eidion wedi'i fagu ar laswelltiroedd wedi'u rheoli'n dda. Yn y pen draw byddai'r projectau yn darparu buddion ar gyfer ffermwyr, bioamrywiaeth a chymunedau drwy'r wlad.

Cynnal systemau da byw dichonadwy

Cyflwyno mesurau i atal clefydau da byw er mwyn diogelu dichonolrwydd hir dymor ffermio da byw yng Nghymru.

Cyrff treftadaeth, busnesau ffermio, rhwydweithiau manwerthu, cyrff twristiaeth, awdurdodau lleol, Rhwydwaith Maeth Cymru

Llywodraeth y Cynulliad, Defra, diwydiant da byw

RHWYDWAITH SAFLEOEDD BYWYD GWYLLT LLEOL

Darparu adnoddau a datblygu rhwydwaith safleoedd bywyd gwyllt er mwyn clustnodi a diogelu'r holl ddolydd byw a chynefinoedd bywyd gwyllt heb eu dynodi'n safleoedd SSSI.

Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau cynllunio lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol

RHEOLI DATBLYGIAD

Diogelu dolydd byw drwy gyfrwng prosesau cynllunio a rheoliadau asesu amgylcheddol.

Darparu adnoddau digonol i gynnal canolfannau cofnodi amgylcheddol lleol er mwyn cadw data cywir ar leoliad a chyflwr dolydd byw ar gyfer rheoleiddwyr ac awdurdodau cynllunio lleol at ddibenion rheoli datblygiad.

Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau cynllunio lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

TWRISTIAETH A HAMDDEN

Gwella cyfleoedd i ymweld â dolydd byw.

Cefnogi a datblygu twristiaeth bwyd gwyllt, yn cynnwys hyrwyddo ymweliadau â llety ffermydd, yn arbennig rhwng Mai a chanol Gorffennaf.

Mae bywyd gwyllt Cymru yn ased gwerthfawr i dwristiaeth, ond heb ei ddatblygu'n ddigonol. Gyda chymorth y diwydiant twristiaeth a Llywodraeth y Cynulliad, dylai cyrff bywyd gwyllt a threftadaeth gydweithio â busnesau a thirfeddianwyr lleol er mwyn datblygu'r elfen hon yng Nghymru.

Cynghrair Twristiaeth Cymru, Ymweld â Chymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol & tirfeddianwyr eraill, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

PRYNU TIR

Cefnogi caffaelio glaswelltiroedd o dan fygythiad fel y cam olaf.

Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, cyllidwyr, cyrff treftadol a bywyd gwyllt

Dolydd byw ...



Stewart Smith, Cynghorwr Cefn Gwlad Cymru

... glaswelltiroedd gydag amrywiaeth eang o flodau gwyllt, porfeydd, brwyn a hesg. Bydd y planhigion yn addasu mewn ymateb i hinsawdd, pridd ac amgylchiadau lleol – gyda rhwng 15 a 40 rhywogaeth o fewn metr sgwâr ac, yn yr enghreifftiau gorau, 60 neu fwy o blanhigion glaswelltiroedd mewn un cae. Bydd yr amrywiaeth hon yn darparu bwyd a lloches ar gyfer sawl rhywogaeth arall, yn cynnwys ffyngau, chwilod, pili-palaod, adar, brogaod a llyffantod, nadroedd, draenogod a mamaliaid bach arall.

... yn gallu helpu i ddiogelu trefi a phentrefi rhag llifogydd

Mae dolydd byw a glaswelltiroedd mewn dyffrynnoedd afonydd yn diogelu trefi a phentrefi cyfagos wrth amsugno dŵr. Ar draws Prydain mae'r rhan fwyaf o'r gorlifdiroedd naturiol wedi'u draenio a datblygu, ac er bod llawer yn destun pori sylweddol gan anifeiliaid, mae llawer o ffactorau wedi cynyddu llif dŵr glaw a llifogydd i'r afonydd.

...diogelu cyflenwadau dŵr

Ni ddefnyddir plaladdwyr, biswail a gwrtaith artiffisial ar ddolydd byw. Os rhoir gwrtaith o gwbl, bydd ar ffurf gwrtaith fferm a ailgylchir gan y planhigion. Mae glaswelltiroedd amaethyddol yn dibynnu ar gwrtaith artiffisial neu fiswail, sy'n gallu llygru afonydd a nentydd, a difrodi dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd eraill, megis cloddiau.

... yn cynnal blodau gwyllt a ffynonellau bwyd

Mae dolydd byw yn adnoddau amaethyddol gwerthfawr sy'n gallu cynhyrchu bwyd 'araf' blasus a maethlon, fel cig oen ac eidion, caws a llaeth – asedau heb eu datblygu'n helaeth gan ffermwyr Cymreig.



Charles Morgan, PONT

Wrth fwyta cymysgedd o berlysiau a glaswellt gwyllt bydd blas cyfoethog a chymhleth ar gig gwartheg Ffermydd Organig May



BIOAMRYWIAETH

Dengys ymchwil fod cig o dir heb ei drin sy'n cynnal blodau a phorfeydd gwyllt nid yn unig yn blasu'n dda, mae'n cynnwys lefelau uchel o fitamin E ac asidau braster 'da' na chig wedi'i fagu ar laswelltiroedd amaethyddol yn cynnwys llawer o rygwellt. Canfu project Bwyta Bioamrywiaeth* fod cig oen wedi'i bori ar rosydd grug a morfeydd heli'n cynnwys tipyn mwy o fitamin E nag anifeiliaid wedi'u magu ar laswelltiroedd rhygwellt. Roedd hefyd yn cynnwys mwy o asidau braster Omega-3 ac Omega-6 a llai o asidau niweidiol. Yn ogystal roedd y cig oen yn para'n hirach ar silffoedd siopau – factor gwerthfawr i gigyddion ac archfarchnadoedd.

*Prifysgolion Bryste, Caerwysg, Caerloyw a Sefydliad Ymchwil Glaswelltiroedd ac Amgylcheddol

Effros a Llyriad yr Ais, dau o'r blodau gwyllt gyda nodweddion meddygol a ddefnyddir i greu moddion traddodiadol i drin anifeiliaid gyda heintiau llygaid, clwyfau neu lyngyr.

... llefydd i'w sawru a mwynhau

Bydd pobl yn mwynhau ymweld â dolydd byw. Bob blwyddyn yng nghwm Gwy, bydd grŵp Dolydd Sir Fynwy yn cynnal diwrnod dolydd agored yn debyg i'r cynllun gerddi agored. Denwyd dros 150 o bobl i'r dolydd byw a agorwyd yn 2007.

... cynnal defaid, gwartheg a cheffylau cynhenid

Mae dolydd byw yn llawn llysiau gwyllt, gyda digon o ffeibr a dim llawer o siwgr – sef y diet delfrydol ar gyfer cheffylau a merlod, yn arbennig rhai cynhenid. Gyda digonedd o lysiau, llawer ohonynt gyda gwreiddiau dwfn ac yn dwyn elfennau hybrin o'r pridd, yn draddodiadol galwyd dolydd gwyllt yn gaeau 'ysbyty' neu 'meddygol' gyda rhai'n pori anifeiliaid sâl arnynt er mwyn eu helpu i adfer.

... ysgyfaint gwyrdd trefi

Mae dolydd ar ymylon trefi o dan fygythiad gan ddatblygiadau tai ac ati. Ond, maent yn gweithredu fel 'ysgyfaint gwyrdd' pwysig, gan ddarparu mannau gwyrdd i bobl fwynhau, a tharfu ar undonedd y stadau tai a pharciau busnes. Yn aml mae dolydd trefol yn llaith ac ar dir isel; a bydd eu datblygu'n cynyddu'r risg o lifogydd yn lleol.

Bob Gibbons



Effros




Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent

Bob Gibbons



Llyriad yr Ais



Paula Graham

Meysydd gwair iseldiroedd

Dyma'r dolydd o dan fgythiad mawr ym Mhrydain, a fyddai wedi gorchuddio llawer o iseldiroedd Cymru cyn yr ail ryfel byd, yn arbennig ar bridd ffrwythlon dyffrynnoedd afonydd a thir lled wastad. Ers hynny mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u draenio ac aredig er mwyn tyfu cnydau neu laswellt, gan ledu gwrtaith artiffisial i wella cynhyrchiad wrth roi mwy o dda byw arnynt. Mae llad gwair hefyd wedi gostwng, gyda llawer o gaeau yn cael eu torri i greu silwair. Mae creu silwair yn golygu torri a byrnu glaswellt, ddwywaith y flwyddyn yn aml, gan ddechrau mor gynnar ag Ebrill neu Fai, ar adeg pan fydd adar y glaswelltiroedd yn nythu.

Dolydd Byw Cymru – mathau

BYDD DOLYDD BYW (gwyddonwyr fel arfer yn cyfeirio atynt fel glaswelltiroedd heb eu datblygu, sy'n llawn rhywogaethau llysiau gwahanol) yn amrywio yn dibynnu ar eu lleoliad, gan gynnal gwahanol blanhigion sy'n adlewyrchu'r lleoliad a nodweddion y tir.

Mewndir

- ✿ Porfeydd corsydd ar orlifdiroedd afonydd
- ✿ Caeau gwair mewn dyffrynnoedd afonydd ac ar dir lled wastad
- ✿ Porfeydd ar bridd 'niwtral' (dim gormod o galch neu asid) sy'n sych yn yr haf
- ✿ Glaswellt porffor ar rosydd a phorfeydd rhygwellt ar dir gwlyb
- ✿ Glaswelltiroedd yn llawn rhywogaethau ar bridd asid yn yr iseldiroedd
- ✿ Porfeydd ar bridd yn llawn calch; yng Nghymru fel arfer ar galchfaen

Arfordir

- ✿ Porfeydd ar gorsydd ger aberoedd
- ✿ Glaswelltiroedd ar dwyni tywod
- ✿ Glaswelltiroedd ar glogwyni ac ati.

Arolwg yn 2003 wedi datgelu fod y gylfinir, sy'n nythu ar dir dolydd gwair, yn brin iawn yn iseldiroedd Cymru. Ers 1989, mae eu nifer wedi gostwng 80% yng Nghymru, ynghyd â'u cynefin gwlyb. Nifer y cornchwiglen, giach a'r goesgoch hefyd wedi gostwng yn sylweddol.



David Tipling, RSPB

Gylfinir



Ynddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent



Ynddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent

Cynhaeaf gwair traddodiadol yn hanfodol i gynnal bywyd gwyllt y cynefinoedd hynny




Dolydd Byw Cymru

PORIR 96% o dir ffermydd Cymru gan wartheg a defaid, ceffylau a merlod. Mae hynny'n cynnwys rhostiroedd a phorfeydd garw ar yr ucheldiroedd, ynghyd â phorfeydd yn yr iseldiroedd a chynefinoedd eraill. Amcangyfrifir fod porfeydd yn llawn rhywogaethau gwahanol ar yr iseldiroedd ac ar gyrion yr ucheldiroedd yn cynrychioli llai na 3.3% o'n tir amaeth, a dim ond tua 3.5% o holl borfeydd Cymru.

Mae dolydd byw o dan fygythiad ac yn dal i ddiflannu. Yn bennaf mae'r dolydd blodau gwyllt sy'n weddill yn ddarnau bach o dir yng nghanol tir â'r, ac yn aml yn gysylltiedig â thyddynnod nad ydynt yn rhan o fentrau amaeth masnachol. Yn aml maent yn destun gor-bori sy'n atal tyfiant blodau gwyllt. Ar yr arfordir, mae rhai glaswelltiroedd blodau gwyllt yn parhau mewn stribedi cul ger llwybrau. Ym mhob man mae dolydd byw yn diflannu, yn arbennig oherwydd datblygiadau amaethyddol, newidiadau i drefniadau pori ac adeiladu. Mae dileu pori yn broblem gynyddol, fel yn llawer o Ewrop, oherwydd y ffaith fod ffermwyr yn heneiddio a ffermio da byw traddodiadol yn dirywio mewn ardaloedd ymylol.

Dolydd Byw yn cynrychioli llai na 3.3% o gefn gwlad Cymru, neu lai na 3% o dir Cymru os yn cynnwys tir wedi'i ddatblygu mewn pentrefi, trefi a dinasoedd. Mae'r manifest o hwn yn galw am weithredu ar frys er mwyn cynnal ac ymestyn yr adnoddau hyn. Mae'r targedau cyfredol yn dila iawn. Awgrymwn y dylai dolydd byw gynrychioli 5% o gefn gwlad erbyn 2015.


Defnydd tir amaeth Cymru



Glaswelltir llawn rhywogaethau o gymharu â'r holl dir amaeth



Glaswelltir llawn rhywogaethau o gymharu â'r holl laswelltir a thir pori bras



Ffynhonnell: Tir amaeth Cymru 2005 (Ystadegau Amaeth Cymru) & Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2008, data wedi'i addasu o arolygon cynefinoedd Cymal 1.

Glaswelltiroedd llawn rhywogaethau yn ôl math¹

Math	hectar
Glaswelltiroedd asid heb eu datblygu ar ymylon ucheldiroedd	17,560
Glaswelltiroedd calchfaen ucheldiroedd	700
Porfeydd rhosydd	32,161
Dolydd a phorfeydd gwair iseldiroedd (pridd niwtral)	1,322
Glaswelltiroedd calchfaen iseldiroedd	1,146
Glaswelltiroedd asid iseldiroedd	610
CYFANSWM	53,499

¹ Ffynhonnell: Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Nid yw'n cynnwys data glaswelltiroedd llawn rhywogaethau yn gysylltiedig â thwyni tywod.



Andy Hay, RSPB

Cornchwiglen

Ble mae'r Dolydd Byw?

MAE'R RHAN FWYAF YN GYNEFINOEDD 'MOSAIG' o borfeydd heb eu datblygu, dolydd gwair a chaeau brwyn ar gyrion ucheldiroedd – ar dir anodd ei ffermio. Mae enghreifftiau prin o ddolydd byw, meysydd gwair iseldiroedd a phorfeydd pridd niwtral ar wasgar drwy'r wlad. Sir Benfro (30%) hen sir Forgannwg (14%) a sir Gaerfyrddin (10%) yw'r cadarnleoedd. Mae'r rhai sy'n weddill un ai'n feysydd neu grwpiau caeau bach, yn aml yn llai na hectar mewn maint. Nid oes llawer o safleoedd glaswellt heb eu datblygu sy'n fwy nag ychydig o hectarau mewn maint.

Yn ogystal, mae porfeydd rhos wedi'u gwasgaru ar hyd y wlad, gyda'r rhai sy'n weddill yn sir Gaerfyrddin (19%), hen sir Forgannwg (16%), Ceredigion (12%) ac Eryri (11%). Mae mwyafrif o'r glaswelltiroedd ar iseldiroedd Cymru ar glogwyni arfordir y de orllewin a sir Conwy, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen nifer sylweddol ohonynt. Ar ben hynny, mae bron tri chwarter (72%) o'r glaswelltiroedd calchfaen yn ardal parc cenedlaethol y Bannau, a dros hanner y glaswelltiroedd blodau gwyllt asid yn Eryri, Gwynedd a Phowys.

Mewn rhai ardaloedd, ymylon ffyrdd yw lloches olaf blodau gwyllt

Yn yr iseldiroedd, mae llawer o'r dolydd byw yn gaeau bach, yn aml yng nghanol porfeydd datblygedig neu dir âr

Bygythiadau i Ddolydd Byw Cymru

Dulliau amaeth dwys

Rheoli glaswelltiroedd – defnyddio gwrtaith artiffisial a chwynladdwyr, aredig, ail-hadu, gwasgaru biswail, draenio; newid o gynhyrchu gwair i silwair; a gwaredu bridiau gwartheg traddodiadol er mwyn cael rhai sy'n cynhyrchu mwy o gig a llaeth.

Gor-bori

Pori gormod o anifeiliaid yn rhy hir ac ar amseroedd anaddas, bwydo ar borfeydd dros y gaeaf, yn arwain at newid i lystyfiant glaswelltiroedd, colli blodau gwyllt, a chynyddu nifer y pail gwyn a chwyn annymunol fel blodau menyn ymledol, dail tafol neu ysgall.

Rhoi'r gorau i ffermio

Mae tan-bori'n arwain at ddatblygu glaswellt twmpath, rhedyn neu brysg. Mae gorffen ffermio'n digwydd yn aml pan werthir caeau ac os bydd y perchnogion newydd heb brofiad o ffermio, dim anifeiliaid neu offer, neu ddiffyg dealltwriaeth o ddolydd byw a'u rheolaeth.

Clefydau da byw

Cyfyngiadau ar yr hawl i symud gwartheg, oherwydd TB Ychol a 'Bluetongue', yn tanseilio busnesau da byw a gallu ffermwyr i reoli glaswelltiroedd mewn ffyrdd cynladwy.

Newid defnydd tir

Plannu coed, adeiladu tai a pharciau busnes, chwareli, tomenni sbwriel, heolydd. Trosi i greu padogau merlod neu geffylau, gyda gormod o anifeiliaid arnynt a dim dulliau rheoli da yn broblem gynyddol ar gyrion trefi a dinasoedd.

Glaswelltiroedd datblygedig o dan reolaeth

Mae'n debyg mai glaswelltiroedd yw adnoddau amaeth pwysicaf y wlad. Rheolir rhan helaeth o'r glaswelltiroedd yn yr iseldiroedd ('datblygedig') er mwyn cynhyrchu cig a llaeth, y mae Cymru yn enwog amdanynt ar draws y byd. Fel arfer maent yn cynnwys nifer cyfyng o rywogaethau glaswellt sy'n tyfu'n gyflym, yn arbennig rhyg lluosflwydd a meillion masnachol. Ni fyddant yn cynnwys llawer o flodau gwyllt cynhenid, oherwydd bydd cynnal cynhyrchiad yn galw am ychwanegu gwrtaith artiffisial yn rheolaidd ar ffurf biswail, gwrtaith anorganig neu lawer o dail fferm, ac weithiau chwynladdwyr i waredu blodau gwyllt fel blodau menyn. Torrir llawer ohonynt o leiaf ddwywaith y flwyddyn i greu silwair, gyda'r cyntaf yn Ebrill neu Fai. Ar dir anodd ei aredig, bydd glaswellt gwyllt fel rhonwellt ci cribog, maeswellt a pheiswellt yn cymryd drosodd. Cynhelir cynhyrchiad ar y glaswelltiroedd datblygedig wrth ddefnyddio gwrtaith ac weithiau chwynladdwyr planhigion llydan-ddeiliog.

Sue Everett

Gor-bori yn aml yn arwain at gynyddu maethiad, tyfiant chwyn, gorddefnydd o chwynladdwyr a cholli blodau gwyllt

Sue Everett

Terfynu pori yn fygythiad mawr i ddolydd byw

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent

Blodau gwyllt wedi diflannu o laswelltiroedd datblygedig, ynghyd â llawer o fywyd gwyllt arall

Stuart Smith, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Dulliau cyfredol o ddiogelu ac adfer Dolydd Byw

Fframwaith

Strategaeth Amgylcheddol Cymru sy'n gosod fframwaith cyffredinol ac ymrwymadau i gynnal ac adfer bioamrywiaeth ac amgylchedd gwledig y wlad. O fewn hynny mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn arwain cynllun cenedlaethol o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, gyda thargedau i gynnal ac adfer cynefinoedd dolydd byw. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a chanolog, elusennau cadwraethol a chyrff ffermio a thirfeddianwyr. Clustnodwyd glaswelltiroedd yn llawn rhywogaethau amrywiol fel blaenoriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad o dan Adran 42, Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SSSI)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw'r asiantaeth yn gyfrifol am ddynodi'r dolydd byw gorau fel SSSIs. Mae dynodiad SSSI yn darparu rhywfaint o ddiogelwch cyfreithiol ar gyfer safle, gyda'r nod o gynnal ei nodweddion a chynefinoedd pwysig. Gall y Cyngor hefyd helpu perchnogion a rheolwyr SSSI drwy gyfrwng cytundebau rheoli, ond bod tueddian cynyddol i ddefnyddio Tir Gofal at y diben (er nad yw'n agored i lawer o berchnogion dolydd byw).

Hyd yma, mae system SSSI i ddiogelu'r dolydd byw pwysicaf wedi methu i

raddau helaeth – datgelodd arolwg o SSSIs Cymru rhwng 2005 a 2006 gan y Cyngor Cefn Gwlad fod pedwar o bob pump SSSI wedi'i ddynodi am ei laswellt mewn cyflwr gwael oherwydd diffyg rheolaeth ac, mewn rhai achosion, dulliau amaeth dwys. Yn dilyn arolygon glaswelltiroedd rhwng 10 ac 20 blynedd yn ôl, fe ddylid fod wedi dynodi llawer mwy o safleoedd glaswellt pwysig yn SSSIs. Targed *Strategaeth Amgylcheddol Cymru* yw cael 95% o SSSIs mewn cyflwr da erbyn 2015, targed heriol iawn.

Dim ond un allan o bump o ddolydd byw SSSI Cymru mewn cyflwr da

Safleoedd lleol dynodedig

Am bob glaswelltir a ddynodwyd yn SSSI mae llawer mwy o faint ac ansawdd tebyg heb unrhyw ddiogelwch cyfreithiol. Dylid rhoi statws safle Bywyd Gwylt Lleol i ddolydd byw o bwysigrwydd lleol, ac mewn rhai achosion hyd yn oed o ansawdd SSSI, cyn belled bod system yn bodoli yn yr ardal awdurdod cynllunio honno. Byddai hynny o leiaf yn nodi fod y safle o ddiddordeb bywyd gwyllt drwy'r broses rheoli datblygiad. Gallai clustnodi safleoedd bywyd gwyllt lleol hefyd

ddarparu ffordd o helpu perchnogion i gael cyngor rheoli neu gymorth arall, yn cynnwys help gyda dulliau pori a chreu gwair, a chynghor am y cymorth ariannol ar gael i reoli'r cynefinoedd pwysig hyn. Ar hyn o bryd mae rhwydwaith safleoedd lleol Cymru yn anghyflawn, gyda rhai awdurdodau lleol yn cynnal systemau gwael ac eraill o dan reolaeth ymddiriedolaeth bywyd gwyllt yn lleol.

Cynlluniau amaeth-amgylchedd

Mae rheoli dolydd byw yn dibynnu ar gynnal ffermio da byw traddodiadol, yn cynnwys pori ar adegau addas yn y flwyddyn a chynnal lefelau stocio rhesymol, neu ladd gwair a phori ar ei ôl. Fodd bynnag, mae pwysau ar incwm ffermydd Cymreig ac yn aml byddant angen cymorth ariannol i gynnal dolydd byw a dilyn mesurau na fyddai'n addas ar gyfer gweddill eu ffermydd. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn dibynnu ar gynlluniau amaeth-amgylchedd, Tir Gofal yn benodol, er mwyn darparu'r cymorth hwnnw.

Mae cynlluniau amaeth-amgylchedd yn darparu incwm hanfodol ar gyfer rhai ffermwyr a thirfeddianwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae eu potensial i gynnal neu adfer dolydd byw dros yr hir dymor yn gyfyng am amryw resymau. Manylir y cyfyngiadau hynny, ynghyd â chynigion i wella'r cynlluniau yn y partner ddogfen – *Cynlluniau Amaeth-amgylchedd a Dolydd Byw Cymru*.



Sue Everett

Cyflwr glaswelltiroedd SSSI.

Glaswelltir	% Cyflwr ffafriol
Asid	22%
Calchaid	20%
Niwtral	19%

Ffynhonnell: Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yng Nghymru. Cyflwr a gwybodaeth gyfredol. Adroddiad Ebrill 2005–Ebrill 2006. Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Mae nifer sylweddol o dyddynnod yn anghymwys ar gyfer y cynlluniau amaeth-amgylchedd am eu bod yn llai na 3 hectar, neu eu daliad heb ei gofnodi. Mae'r Shared Earth Trust wedi amcangyfrif fod rhwng 10 a 17% o gefn gwlad Cymru yn eiddo dyddynnod heb eu cofrestru. Dengys tystiolaeth hefyd fod mwyafrif o'r glaswelltiroedd blodau gwyllt ar ôl yng Nghymru yn gysylltiedig â daliadau fel hyn.

Bydd yr arolwg o gynlluniau amaeth-amgylchedd gan Lywodraeth y Cynulliad yn gyfle pwysig i wella dulliau o ddiogelu, cynnal ac adfer dolydd byw.

Projectau lleol

Mae projectau arbennig gan fwyaf yn fentrau lleol, wedi'u datblygu gan un neu fwy o gyrff gyda chyllid o wahanol ffynonellau. Maent yn ddull pwysig o gefnogi perchnogion dyddynnod llai na 3ha. Gallant arwain at gynnydd sylweddol mewn gwerth safleoedd, megis buddion i gymuned, addysg, masnach a thwristiaeth. Fel arfer rhoir cyllid projectau arbennig am gyfnod penodol (yn aml tair blynedd) gan gymryd amser ac ymdrech i'w trefnu, a'r grant yn daladwy ar ôl gwneud y gwaith. Oherwydd natur byr dymor y rhan helaeth o brojectau a phroblemau cael arian cyfatebol, bydd llawer o elusennau'n wynebu anawsterau llif

“Byddwn yn ceisio gwerthfawrogi a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd yr amgylchedd nid yn unig er lles ei hun ond fel rhan bwysig o ddarparu dyfodol cynaladwy ar gyfer economïau a chymunedau lleol.”
(Cymru: Gwlad Well – Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003)

arian, a phroblemau recriwtio a chadw pobl gyda'r sgiliau a phrofiad angenrheidiol.

Rheoli datblygiad

Mae chwarela, adeiladu tai, parciau busnes a heolydd yn fygythiadau sylweddol i ddolydd byw, yn arbennig ar ymylon trefi ac yn ne Cymru. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu polisiau i ddiogelu cynefinoedd bywyd gwyllt pwysig a chefn gwlad, yn aml diystyrir nhw er mwyn caniatáu datblygiad. Weithiau byddant yn cymryd bod modd trosglwyddo glaswelltiroedd i rywle arall – ond nid yw hynny wedi profi'n llwyddiannus. Mae diffyg data cynhwysfawr ar leoliad y dolydd byw sy'n weddill hefyd yn golygu y gellir clustnodi safleoedd pwysig i'w datblygu a'u colli am byth. Mae hynny'n pwysleisio'r angen i sefydlu system safleoedd bywyd gwyllt lleol cynhwysfawr ar gyfer pob awdurdod lleol, ynghyd â rhwydwaith o ganolfannau cofnodion amgylcheddol lleol. Byddai hynny'n darparu gwybodaeth ddibynadwy ar gyfer datblygwyr a chynllunwyr am werth bywyd gwyllt safleoedd cyn ystyried eu datblygu.

Rheoliadau asesu amgylcheddol

Ymddengys y gallai Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Amaeth) (Cymru) 2007 atal rhag distrywio glaswelltiroedd traddodiadol trwy ddatblygiad amaethyddol. Mewn rhai achosion maent

wedi profi'n effeithiol, cyn belled y dynodwyd y safleoedd gan arolygon yn y 1990au. Mewn achosion eraill anwybyddwyd y rheoliadau ac ni chymrwyd camau'n erbyn y tirfeddianwyr. Ers 2006 mae amodau'r rheoliadau wedi bod yn rhan o groesgydymffurfiad (isod).

Croesgydymffurfiad Amaethyddol

Mae'n rhaid i bobl sy'n derbyn taliadau ffermydd unigol ac eraill o dan y Polisi Amaeth Cyffredin gynnal eu tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Mae'r gofynion yn cynnwys rhai mesurau a allai helpu i ddiogelu glaswelltiroedd heb eu datblygu. Mae hynny'n golygu os bydd fferm yn destun monitro ac yn methu dilyn un o'r amodau, gellid atal y taliadau. Mewn gwirionedd, ni fydd hynny'n digwydd yn aml, tra bod rhai o'r mesuriadau i fonitro cyflwr glaswelltiroedd yn anaddas. Ar ben hynny, fe drefnir rhai arolygon gan bobl heb y sgiliau addas a heb unrhyw ddata ecolegol yn sail i'w gwaith.

“Rhaid darparu llefydd o ansawdd da i bobl fyw ynddynt. Bydd hynny'n golygu creu amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel a chyfleoedd i fwynhau mannau gwyrdd a bioamrywiaeth.”
Strategaeth Amgylcheddol Cymru



Pori yn hanfodol i gynnal dolydd byw. Trefnir digwyddiadau di-dâl ar gyfer perchnogion a rheolwyr bob gwanwyn a haf gan Flora locale a chyrrff eraill. Manylion yn www.dolyddbyw.org.uk



Sue Everett

Rhai projectau sy'n cefnogi adfer Dolydd Byw yng Nghymru

Project meysydd gwair yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Project yn rheoli'r holl feysydd gwair ar y tir mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli. Mae'n gweithio i gynyddu ei adnoddau meysydd gwair a, ble'n addas, cyflwyno hadau o gaeau sy'n llawn rhywogaethau gwahanol.



Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Glaswelltiroedd Carmel

Wrth reoli Gwarchodfa Natur Carmel mae'r Ymddiriedolaeth Glaswelltiroedd yn adfer y glaswelltiroedd nodedig o fewn mosaig o laswelltiroedd a hen goetiroedd. Mae'n prynu tir i ddiogelu a chysylltu gwahanol rannau o'r warchodfa, fel rhan o gynllun tirwedd ehangach.

Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Cynnal llethrau'r arfordir

Cynllun rheoli sy'n helpu perchnogion sy'n methu neu'n anfodlon cynnal cynlluniau amaeth-amgylchedd wrth drefnu grantiau, cytundebau rheoli, trefnu stociau a chymorth ymarferol arall i'w helpu i ailddechrau pori ar laswelltiroedd arfodirol.



Charles Morgan, PONT

PONT: Pori Natur a Threftadaeth

Mae PONT yn cydweithio â thirfeddianwyr a rheolwyr stoc i reoli pori er lles bywyd gwyllt a thirwedd Cymru.

Project Brithion Cors Mynydd Mawr, Sir Gaerfyrddin

Project yn ceisio diogelu pili-palaod brithion cors wrth gydweithio â thirfeddianwyr i bori'r meysydd corsiog sy'n gartref iddynt.

Menter Glaswelltiroedd Gwent (Sir Fynwy, Blaenau Gwent)

Mae'r project wedi clusnodi glaswelltiroedd pwysig a chydweithio â dros 300 tirfeddianwr, gan roi cyngor rheoli a gwybodaeth am ddynodi meysydd fel safleoedd bywyd gwyllt lleol. Mae rhai perchnogion wedi agor eu meysydd ar gyfer ymweliadau gan bobl leol, gyda chymorth grwpiau cymunedol, capeli ac eglwysi.



Carol Carter

Adfer Dolydd Byw Cymru

Yn awr cesglir hadau o ddolydd byw a'u defnyddio i adfer blodau gwyllt ar laswelltiroedd ar draws y wlad. Manylion pellach gan swyddog project Dolydd Byw neu yn www.dolyddbyw.org.uk



Torri a byrnu gwair llawn hadau



Casglu hadau gyda chynaeafwr brwsh

Sue Everett



Lledu gwair llawn hadau

R. Pywell, Centre for Ecology & Hydrology



Ymddiriedolaeth Gwyllt Gwent



Twristiaeth

Mae cefn gwlad Cymru yn cynnal diwydiant twristiaeth pwysig sy'n gwneud cyfraniad ariannol sylweddol at gymunedau wrth ddarparu gwaith. Mae twristiaeth wledig yn werth tua £350 miliwn i gymunedau gwledig bob blwyddyn. Fodd bynnag, hyd yma ni ddatblygwyd twristiaeth gwyllo bywyd gwyllt yn helaeth yng Nghymru. Mae cyfleoedd i wneud hynny, yn arbennig yn y cyfnod Mai i ganol Gorffennaf, pan fydd dolydd byw yn llywiog iawn a gwestai a llefydd gwely a brecwast ddim mor brysur. Mae dolydd byw yn adnoddau gwych, sy'n cynnig cyfle i wella dealltwriaeth y cyhoedd o gefn gwlad a bywyd gwyllt yn gyffredinol.



Sue Everett

Menter Dolydd Byw Flora locale

Nod:

- * **Gwella ymwybyddiaeth a symbylu'r cyhoedd i gefnogi'r cynefin prin yma**
- * **Hybu cydweithio rhwng ffermwyr a grwpiau cadwraeth er lles dolydd blodau gwyllt**
- * **Cymell a helpu ffermwyr a thirfeddianwyr i adfer a rheoli dolydd blodau gwyllt wrth wneud yr isod:**
 1. **Lobio'r llywodraeth am gymorth i ddiogelu ac adfer dolydd, trwy gyfrwng cynlluniau amaeth-amgylchedd ac eraill**
 2. **Trefnu hyfforddiant ac arddangosfeydd ar gyfer tirfeddianwyr, ymgynghorwyr a rheolwyr**
 3. **Hwyluso rhwydweithio rhwng perchnogion a rheolwyr dolydd blodau gwyllt**
 4. **Cynnal gwefan gyda gwybodaeth am ddolydd blodau gwyllt a'u rheolaeth**
 5. **Cefnogi mentrau arallgyfeirio ffermydd er lles dolydd byw.**

Ysgrifennwyd Maniffesto Dolydd Byw Cymru gan James Robertson (ffermwr ar Ynys Môn a golygydd, *Natur Cymru*), Sue Everett a Ivy Berkshire (Flora locale), ar sail ymchwil gan Miles King (The Grasslands Trust). Mae'r awduron hefyd yn cydnabod cyfraniadau gan lawer o unigolion a chyrff eraill.

Gwybodaeth bellach: Ivy Berkshire, Y Llys, Llansawel, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 7JG. Ffôn 07912 789003.
Ebost: wildmeadows.ivy@googlemail.com

Cyllidwyd Menter Dolydd Byw Cymru gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Esmée Fairbairn Foundation.

www.dolyddbyw.org.uk

Flora locale

Mae Flora locale yn ceisio adfer planhigion gwyllt ar dir a thirweddau ar draws y Deyrnas Unedig, ac wrth wneud hynny wella bioamrywiaeth, amgylchedd a gwerthfawrogiad o drefi a chefn gwlad.

Flora locale, elusen gofrestredig (Cymru a Lloegr rhif 1071212, Alban rhif SC039001) a chwmni cofrestredig yn y Deyrnas Unedig, cyfyngedig trwy warant rhif 3539595.

Prif swyddfa: Denford Manor, Lower Denford, Hungerford RG17 0UN.

www.floralocale.org

The Grasslands Trust

The Grasslands Trust yw'r unig elusen genedlaethol yn gweithio'n benodol i ddiogelu glaswelltiroedd sy'n llawn blodau gwyllt (elusen gofrestredig, Cymru a Lloegr rhif 1097893). Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif 4443047. Prif swyddfa: Wessex House, Upper Market Street, Eastleigh, Hampshire SO50 9FD. Ffôn 02380 650093.

www.grasslands-trust.org

Flora locale a'r Grasslands Trust Ebrill 2008. Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl a heb ganiatâd ymlaen llaw. Cedwir hawlfraint y lluniau gan y ffotograffwyr unigol.